



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



menter
a busnes

Rheoli dail tafol trwy chwynnu trydanol

Y BROBLEM:

Mae yna ddiddordeb cynyddol o fewn y sector amaethyddol ar gyfer symud i ffwrdd o'r dulliau cemegol o reoli chwyn neu ganfod dulliau amgen y gellir eu hintegreiddio â chemegion fel strategaeth rheoli plâu yn integredig (IPM).


NODY PROSIECT:

Treialu'r defnydd o chwynnu trydanol ar ddwy fferm laeth i ymchwilio a allai'r dull hwn leihau ein dibyniaeth ar chwynladdwyr wrth reoli dail tafol.


Sut mae'n gweithio?

Defnyddiwyd peiriant chwynnu trydanol RootWave Pro yn y treialon hyn. Mae'r peiriant yn gyrru cerrynt foltedd uchel trwy'r planhigyn, sy'n berwi'r holl gelloedd planhigion i bob pwrpas. Defnyddiwyd ffon, a ddelir gan law, wedi ei bweru gan eneradur gyda gwifren 20m a chwiliedydd a oedd yn cyffwrdd â dail tafol unigol, ar gyfer y plotiau bach yn y prosiect.

CANLYNIADAU



Y gostyngiad canrannol cymedrig o'r rheolydd heb ei drin ar gyfer y % o orchudd dail tafol fesul plot ar fferm 1 ar gyfer y ddau gyfnod prawf olaf yn 2021, pedwar ac wyth wythnos ar ôl triniaethau (WAT). (fb = wedi'i ddilyn gan)



Y gostyngiad canrannol cymedrig o'r rheolydd heb ei drin ar gyfer y % o orchudd dail tafol fesul plot ar fferm 2 ar gyfer y ddau gyfnod prawf olaf yn 2021, pedwar ac wyth wythnos ar ôl triniaethau (WAT).

Mae canlyniadau'r treialon dros ddau dymor wedi dangos bod trin dail tafol yn drydanol ar dair adeg wahanol yn effeithiol iawn a gall fod yn gyfwerth ag un defnydd o chwynladdwr yn unig. Mae rheolaeth drydanol yn addawol iawn fel offeryn ychwanegol ar gyfer rheoli dail tafol mewn glaswelltir, a fydd yn fuddiol i ffermwyr organig neu'r rhai sy'n anelu at leihau mewnbynnau chwynladdwyr.

Ar gyfer yr effeithlonrwydd gorau posibl, mae angen defnyddio triniaethau cemegol yn ystod cyfnodau tyfu penodol y dail tafol, tra bod y dechneg electroffisegol yn fwy hyblyg oherwydd mae'n galluogi cyfnodau trin hirach a all fod yn fwy cyfleus ar gyfer patrymau pori neu dorri.

Yn y sefyllfa hon mewn caeau glaswelltir, cyfyngiadau'r offer Rootwave Pro yw diffyg symudedd a'r ffaith fod angen tair triniaeth ar gyfer rheolaeth effeithiol o'i gymharu ag un driniaeth chwynladdwr. Mae ar ffermwyr angen system ar dractor a allai deithio ar gyflymder rhesymol cyn eu bod nhw'n defnyddio'r system hon ar eu ffermydd. Dyma beth mae'r cwmnïau o fewn y sector yn gweithio tuag ato.

Am ragor o wybodaeth ar y prosiect EIP yma, ewch i wefan Cyswllt Ffermio:

llyw.cymru/cyswlltffermio

